Carl Sargeant AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref: MA-P-CS-7492-16

At: Y Cynghorydd Alun Thomas (leader@ntp.gov.uk)

CC: Rachel Jordan (r.jordan@npt.gov.uk)

28 Tachwedd 2016

Annwyl Alun

Diolch am gyflwyno eich Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i'w ystyried gan Weinidogion Cymru. Rwyf bellach wedi ystyried yr Asesiad ac wedi cymeradwyo'r cynnwys, yn unol ag adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Asesiad cymeradwy.

Mae'r Asesiad yn dangos bod 3 llain dros ben yn y cyfnod hyd at 2021a bod angen 4 llain yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Byddwn yn annog y Cyngor i fod yn ofalus wrth ymdrin â lleiniau dros ben, gan ystyried yr angen sydd wedi'i nodi ar gyfer y tymor hwy.

Yn y rownd asesu hon, cafodd y dulliau newydd ar gyfer asesu anghenion llety eu defnyddio am y tro cyntaf, fel y'u amlinellir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Caiff y Canllawiau eu hadolygu yn 2018, a chyn hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg ar-lein er mwyn casglu barn a sylwadau awdurdodau lleol a phobl eraill oedd yn ymwneud â'r rownd hon o Asesiadau. Bydd yr ymatebion i'r arolwg yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Canllawiau.

Nodaf fod y Cyngor, wrth bennu ffigur y gyfradd twf er mwyn amcangyfrif angen yn y dyfodol, wedi ystyried y lefel ddiddymu a amcangyfrifir dros gyfnod o bum mlynedd, sy'n mynd y tu hwnt i'r hynny a ragwelwyd yn y Canllawiau. Er nad yw hyn wedi effeithio ar fy mhenderfyniad i gymeradwyo'r Asesiad, bydd fy swyddogion yn ystyried y Canllawiau ymhellach yn hyn o beth, fel rhan o'r gwaith o'u hadolygu yn 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yn ofynnol i'r Cyngor gynnal a chyflwyno Asesiad newydd o Lety Sipsiwn a Theithwyr i Weinidogion Cymru erbyn 24 Chwefror 2021.

Yn gywir,

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children